llymach, ac mae Atodiad II yn rhestru'r nwyddau sy'n destun mesurau brys. Mae'r rhain yn rheolaethau llymach sy'n rhoi'r pwyslais ar y wlad sy'n allforio i roi sicrwydd ynghylch y cynnyrch. Mae atodiadau yn destun adolygiad parhaus bob chwe mis.

Manylir ar yr 14 o ddiweddariadau unigol yn y tabl isod ac maent wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

Dylai'r cynnydd dros dro mewn rheolaethau gael ei dynnu ar gyfer y canlynol. Rydym wedi bod yn monitro lefelau cydymffurfio ac mae'r data, yn seiliedig ar ein hasesiad ohono, yn dangos lefel uchel o sicrwydd bod tynnu'r gofyniad i gynnal rheolaethau ar y cynnyrch yn cynrychioli risg ddibwys i iechyd y cyhoedd.

- Pupurau melys o Tsieina (*Salmonela*)

Dylid lleihau'r rheolaethau ar y canlynol, gan ostwng amlder y gwiriadau adnabod a ffisegol a gaiff eu cynnal. Rydym wedi gweld bod y lefelau cydymffurfio wrth y ffin wedi gwella, ac mae'r data a gafwyd trwy hysbysiadau eraill yn dangos bod lefel y risg wedi lleihau yn sylweddol.

- Jacffrwyth o Malaysia (gweddillion plaladdwyr)
- Ocra o Fietnam (gweddillion plaladdwyr)

Dylid ychwanegu'r canlynol at y rhestr yn Atodiad I oherwydd pryderon eu bod yn peri risg i iechyd y cyhoedd. Maent wedi'u nodi trwy'r System Rhybuddio Cynnar (EWS) ar gyfer mewnforion, yn ogystal â thrwy ddata samplu a gwybodaeth o ffynonellau eraill. Bydd y cynhyrchion yn destun lefel gymesur o fonitro wrth safleoedd rheoli ffiniau Prydain Fawr i gasglu tystiolaeth am y risg i iechyd y cyhoedd.

- Papaws (Papaia) o Frasil (gweddillion plaladdwyr)
- Pitahaya (ffrwyth y ddraig) o Wlad Thai (gweddillion plaladdwyr)
- Cnau daear o Baraguay (afflatocsinau)

Dylai'r canlynol aros yn Atodiad I a dylid cynyddu'r gwiriadau adnabod a ffisegol oherwydd pryderon am y risgiau maent yn eu peri i iechyd y cyhoedd.

- Planhigion wy o Weriniaeth Dominica (gweddillion plaladdwyr)
- Nytmeg, mês a chardamom o'r India (gweddillion plaladdwyr)

| Gwlad tarddiad | Bwyd a bwyd anifeiliaid (defnydd bwriadedig) | Cod y nwydd | Perygl | Amlder y gwiriadau ffisegol a'r gwiriadau adnabod (%) | Natur y newid |
|---|---|---|---|---|---|
| Brasil (BR) | Papaws (Papaia) **(Bwyd)** | 0807 20 00 | Gweddillion plaladdwyr | 10% | Ychwanegiad newydd at yr Atodiad |
| Tsieina (CN) | Pupurau melys *(Capsicum annuum)* **(Bwyd – wedi'i wasgu neu ei falu)** | ex0904 22 00 11 | *Salmonela* | | Dileu |
| Gweriniaeth Dominica (DO) | Planhigion wy (*Solanum melongena*) **(Bwyd – ffres neu wedi'i oeri)** | 0709 30 00 05 | Gweddillion plaladdwyr | 50% | Cynyddu amlder y gwiriadau o 20% i 50% |
| Yr India (IN) | Coed drymffyn (*Moringa oleifera*) **(Bwyd – ffres, wedi'i oeri neu wedi'i rewi)** | ex0709 99 90 10<br>ex0710 80 95 75 | Gweddillion plaladdwyr | ~~20%~~ | Tynnu o Atodiad I a mewnosod yn Atodiad II ar amlder gwiriadau o 20% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr India (IN) | Sinsir, saffrwm, tyrmerig (*Curcuma*), teim, dail llawryf, cyri a sbeisys eraill **(Bwyd – sbeisys sych)** | 0910 | Gweddillion plaladdwyr | ~~10%~~ | Tynnu o Atodiad I a mewnosod yn Atodiad II ar amlder gwiriadau o 20% |
| Yr India (IN) | Nytmeg, mês a chardamom **(Bwyd – sbeisys sych)** | 0908 | Gweddillion plaladdwyr | 50% | Cynyddu amlder y gwiriadau o 10% i 50% |
| Yr India (IN) | Ocra **(Bwyd – ffres, wedi'i oeri neu wedi'i rewi)** | ex0709 99 90 20<br>ex0710 80 95 30 | Gweddillion plaladdwyr | ~~20%~~ | Tynnu o Atodiad I a mewnosod yn Atodiad II ar amlder gwiriadau o 20% |
| Yr India (IN) | Hadau anis, badian, ffenigl, coriander, cwmin neu garwe, aeron meryw **(Bwyd – sbeisys sych)** | 0909 | Gweddillion plaladdwyr | ~~10%~~ | Tynnu o Atodiad I a mewnosod yn Atodiad II ar amlder gwiriadau o 20% |
| Malaysia (MY) | Jacffrwyth (*Artocarpus heterophyllus*) **(Bwyd – ffres)** | 0810 90 20 20 | Gweddillion plaladdwyr | 20% | Gostwng amlder y gwiriadau o 50% i 20% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Paraguay (PY) | Blawd cnau daear **(Bwyd a bwyd anifeiliaid)** | 1208 90 00 20 | Afflatocsinau | 10% | Ychwanegiad newydd at yr Atodiad |
| Paraguay (PY) | Cacen olew a gweddillion solet eraill, boed wedi'u malu neu ar ffurf peledi, sy'n deillio o echdynnu olew cnau daear **(Bwyd a bwyd anifeiliaid)** | 2305 00 00 | Afflatocsinau | 10% | Ychwanegiad newydd at yr Atodiad |
| Paraguay (PY) | Past cnau daear **(Bwyd a bwyd anifeiliaid)** | 2007 10 10 80<br>2007 10 99 50<br>2007 99 39 07<br>2007 99 39 08 | Afflatocsinau | 10% | Ychwanegiad newydd at yr Atodiad |
| Syria (SY) | Hadau *sesame* **(Bwyd)** | 1207 40<br>2008 19 19 49<br>2008 19 99 49 | *Salmonela* | 10% | Ymestyn yr ystod o nwyddau sy'n destun rheolaethau, a symud dau god o dan tahini a halfa i gofnod hadau sesame |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwlad Thai (TH) | Pitahaya (ffrwyth y ddraig) **(Bwyd – ffres neu wedi’i oeri)** | 0810 90 20 10 | Gweddillion plaladdwyr | 10% | Ychwanegiad newydd at yr Atodiad |
| Türkiye (TR) | Hadau *sesame* **(Bwyd)** | 1207 40<br>2008 19 19 49<br>2008 19 99 49 | *Salmonela* | 10% | Ymestyn yr ystod o nwyddau sy’n destun rheolaethau, a symud dau god o dan tahini a halfa i gofnod hadau sesame |
| Uganda (UG) | Pupurau o’r genws *Capsicum* (ac eithrio rhai melys) **(Bwyd – ffres, wedi’i oeri neu wedi’i rewi)** | 0709 60 99 20<br>0710 80 59 20 | Gweddillion plaladdwyr | ~~50%~~ | Tynnu o Atodiad I a mewnosod yn Atodiad II ar amlder gwiriadau o 20% |
| Fietnam (VN) | Ocra **(Bwyd – ffres, wedi’i oeri neu wedi’i rewi)** | 0709 99 90 20<br>0710 80 95 30 | Gweddillion plaladdwyr | 20% | Gostwng amlder y gwiriadau o 50% i 20% |

| Gwlad tarddiad | Bwyd a bwyd anifeiliaid (defnydd bwriadedig) | Cod y nwydd | Perygl | Amlder y gwiriadau ffisegol a’r gwiriadau adnabod (%) | Natur y newid |
|---|---|---|---|---|---|
| Ethiopia (ET) | Hadau *sesame* **(Bwyd)** | 1207 40<br><br>2008 19 19 49<br>2008 19 99 49 | *Salmonela* | 50% | Ymestyn yr ystod o nwyddau sy’n destun rheolaethau |
| Yr India (IN) | Ocra **(Bwyd – ffres, wedi’i oeri neu wedi’i rewi)** | 0709 99 90 20<br>0710 80 95 30 | Gweddillion plaladdwyr | 20% | Mewnosod yn Atodiad II ar 20% a thynnu o Atodiad I |
| Yr India (IN) | Coed drymffyn (*Moringa oleifera*) **(Bwyd – ffres, wedi’i oeri neu wedi’i rewi)** | 0709 99 90 10<br>0710 80 95 75 | Gweddillion plaladdwyr | 20% | Mewnosod yn Atodiad II ar 20% a thynnu o Atodiad I |
| Yr India (IN) | Hadau anis, badian, ffenigl, coriander, cwmin neu garwe, aeron meryw **(Bwyd – sbeisys sych)** | 0909 | Gweddillion plaladdwyr | 20% | Mewnosod yn Atodiad II ar 20% a thynnu o Atodiad I |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr India (IN) | Sinsir, saffrwm, tyrmerig (*Curcuma*), teim, dail llawryf, cyri a sbeisys eraill **(Bwyd – sbeisys sych)** | 0910 | Gweddillion plaladdwyr | 20% | Mewnosod yn Atodiad II ar 20% a thynnu o Atodiad I |
| Yr India (IN) | Hadau *sesame* **(Bwyd)** | 1207 40<br>2008 19 19 49<br>2008 19 99 49 | *Salmonela*<br><br>Gweddillion plaladdwyr | 30%<br><br>30% | Ymestyn yr ystod o nwyddau sy'n destun rheolaethau |
| Y Swdan (SD) | Hadau *sesame* **(Bwyd)** | 1207 40<br>2008 19 19 49<br>2008 19 99 49 | *Salmonela* | 50% | Ymestyn yr ystod o nwyddau sy'n destun rheolaethau |
| Uganda (UG) | Hadau *sesame* **(Bwyd)** | 1207 40<br>2008 19 19 49<br>2008 19 99 49 | *Salmonela* | 20% | Ymestyn yr ystod o nwyddau sy'n destun rheolaethau |
| Uganda (UG) | Pupurau o'r genws *Capsicum* (ac eithrio rhai melys) **(Bwyd – ffres, wedi'i oeri neu wedi'i rewi)** | 0709 60 66 20<br>0710 80 59 20 | Gweddillion plaladdwyr | 20% | Mewnosod yn Atodiad II ar 20% a thynnu o Atodiad I |

